# Daniel a'i ffrindiau yn ufuddhau i Dduw

**Daniel 1: 1-21**

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

| | Disgrifiad | Llun | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| | Daniel 1: 1-21 | | |
| 1 | Roedd Duw wedi rhybddio pobl Israel i droi yn ôl ato neu fe fyddai'n gadael i'w gelynion eu trechu. Enw un o'r dynion ifanc oedd yn byw yn Jerwsalem oedd Daniel. | | |
| 2 | Wnaethon nhw ddim talu sylw i rybudd yr Arglwydd. Daeth byddin y Brenin Nebwchadnesar o Babilon i Jerwsalem. | | |
| 3 | Dyma fyddin Nebwchadnesar yn ymosod ar Jerwsalem, a gwarchae arni. | | |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | A dyma Duw yn gadael i Nebwchadnesar ddal Jehoiacim, brenin Jwda. Cymerodd nifer o bethau o'r deml hefyd. Aeth â nhw yn ôl i wlad Babilon, a'i cadw yn y trysordy yn nheml ei dduw. | |
| 5 | Gorfodwyd llawer o bobl i adael Jerwsalem yn gaeth. | |
| 6 | Roedd Daniel yn un ohonyn nhw. Gorfodwyd nhw i gerdded i Babilon. | |
| 7 | Dyma'r brenin yn gorchymyn i Ashpenas, prif swyddog ei balas, chwilio am Israeliaid ifanc oedd yn perthyn i'r teulu brenhinol a theuluoedd bonedd eraill. Rhai galluog, wedi cael addysg dda, ac yn fechgyn doeth, cymwys i weithio yn y palas. Dyma'r prif swyddog yn dewis Daniel a 3 o'i ffrindiau. Rhoddodd enwau newydd iddyn nhw. Galwodd Daniel yn Belteshasar, Hananeia yn Shadrach, Mishael yn Meshach, ac Asareia yn Abednego. | |

| | | |
|---|---|---|
| 8 | Roedd rhaid iddyn nhw gael eu hyfforddi am dair blynedd cyn dechrau gweithio i'r brenin. A dyma'r brenin yn gorchymyn eu bod i gael bwyta'r bwyd a'r gwin gorau, wedi ei baratoi yn y gegin frenhinol. | |
| 9 | Dyma Daniel yn penderfynu nad oedd e am i wneud ei hun yn aflan drwy fwyta'r bwyd a'r gwin oedd y brenin am ei roi iddo. Gofynnodd i'r prif swyddog am ganiatâd i beidio bwyta'r bwyd brenhinol. Ond dwedodd y swyddog wrtho, “Mae fy meistr y brenin wedi dweud beth ydych chi i'w fwyta a'i yfed. Mae arna i ofn beth fyddai'n wneud petaech chi'n edrych yn fwy gwelw a gwan na'r bechgyn eraill yr un oed â chi. Byddech chi'n rhoi fy mywyd i ar y lein!” Ond wedyn dyma Daniel yn dweud, “Pam wnei di ddim profi ni am ddeg diwrnod? Gad i ni fwyta dim ond llysiau a dŵr, ac wedyn cei di weld sut fyddwn ni'n cymharu gyda'r bechgyn eraill sy'n bwyta'r bwyd brenhinol. Cei benderfynu gwneud beth bynnag wyt ti eisiau wedyn.” | |

| | | |
|---|---|---|
| 10 | Felly dyma'r gwas oedd yn gofalu amdanyn nhw yn cytuno, ac yn eu profi nhw am ddeg diwrnod. Ar ddiwedd y deg diwrnod roedd Daniel a'i ffrindiau yn edrych yn well ac yn iachach na'r bechgyn eraill i gyd, er bod y rheiny wedi bod yn bwyta'r bwydydd gorau o gegin y palas. Felly dyma'r gwas oedd yn gofalu amdanyn nhw yn dal ati i roi llysiau iddyn nhw yn lle'r bwydydd cyfoethog a'r gwin roedden nhw i fod i'w gael. | |
| 11 | Rhoddodd Duw allu anarferol i'r pedwar ohonyn nhw i ddysgu am lenyddiaeth a phopeth arall. Ar ddiwedd y cyfnod o hyfforddiant dyma'r prif swyddog yn mynd â nhw o flaen y brenin Nebwchadnesar. Doedd dim un o'r dynion ifanc eraill cystal â Daniel, Hananeia, Mishael ac Asareia. Felly dyma'r pedwar ohonyn nhw'n cael eu penodi i weithio i'r brenin. Beth bynnag oedd y brenin yn eu holi nhw amdano, roedd eu gwybodaeth a'i cyngor doeth nhw ddeg gwaith gwell nag unrhyw ddewin neu swynwr doeth drwy'r Ymerodraeth gyfan. | |
| 12 | Cyfieithwyd gan www.beibl.net | |